Health and Care Research Wales Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
JBI
The Wales Centre For Evidence Based Care
A JBI Centre of Excellence

# Deall dulliau effeithiol o gyflwyno taliadau uniongyrchol GIP yng Nghymru

Crynodeb Cyflym o'r Dystiolaeth | Awst 2025

*Elizabeth Gillen, Judit Csontos, Deborah Edwards, Adrian Edwards, Beti-Jane Ingram, Elizabeth Doe, Ruth Lewis*

## Beth yw taliadau uniongyrchol?

Mae 'taliadau uniongyrchol' yn cyfeirio at **daliadau ariannol** gan awdurdod lleol neu'r GIG i unigolion (neu eu cynrychiolydd) sy'n gymwys i gael gofal a chymorth, **gan ganiatáu iddyn nhw brynu eu gwasanaethau a'u hoffer eu hunain** yn lle derbyn gwasanaethau'n uniongyrchol gan y cyngor neu gan fyrddau iechyd lleol.

Mae'r taliadau hyn **yn rhoi mwy o ddewis a'r gallu i reoli pwy sy'n darparu'r cymorth, a phryd a sut y caiff ei ddarparu**. Mae'n gyffredin iddyn nhw gael eu defnyddio at ddibenion gofal personol a chymorth domestig.

## Nod yr Astudiaeth

Cyn cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer **Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP)** yng Nghymru yn 2026, mae'r adolygiad hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r canlynol:

- **y dulliau** sydd wedi cael eu defnyddio i roi'r taliadau uniongyrchol mewn systemau iechyd ar waith
- pa mor effeithiol yw'r dulliau hyn o ran **cefnogi'r broses o bersonoli, llywodraethu a mynediad teg at ofal**

Pecyn gofal i oedolion sydd ag anghenion gofal iechyd sylfaenol yng Nghymru a Lloegr yw **Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP).**

## Sylfaen y Dystiolaeth

Roedd yr adolygiad yn cynnwys tystiolaeth a gyhoeddwyd rhwng 2010 a 2023, a oedd yn cynnwys:

| 2 | 6 | 16 | 4 |
|---|---|---|---|
| adolygiad cyflym | adolygiad systematig | adroddiad sefydliadol | dogfen ganllawiau |

## Y prif ganfyddiadau

Ymhlith llawer o'r elfennau allweddol a oedd yn gyfrifol am eu rhoi ar waith yn llwyddiannus roedd:

- Systemau **cymorth cadarn** ac atgyfeirio
- **Gwybodaeth hygyrch a chlir** i'r sawl oedd yn derbyn y taliadau
- Canllawiau / **hyfforddiant cynhwysfawr i staff a oedd ynghlwm** wrth y broses o roi'r taliadau ar waith

## Canllawiau i'r sawl sy'n derbyn y taliad

Gall cymorth pwrpasol i'r rheini sy'n cael taliadau uniongyrchol, a'r gofalwyr cyflogedig, yn enwedig yn y camau cynnar, helpu i **feithrin hyder a sicrhau'r defnydd effeithiol o gyllidebau.**

**Mae broceriaeth a gwasanaethau cymorth annibynnol yn hwyluswyr hollbwysig**, gan helpu'r defnyddwyr i gyllidebu, recriwtio a chynllunio gofal yn effeithiol.

Gall cefnogi unigolion i **hysbysebu, fetio ac estyn cymorth o ran logisteg cyflogaeth** eu helpu i recriwtio gofalwyr addas yn llwyddiannus.

## Canllawiau i staff

Mae rhoi'r taliadau ar waith yn llwyddiannus yn ei gwneud yn ofynnol i staff, comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau'r GIG **gofleidio newid diwylliannol a strwythurol**, gan gynnwys newid agweddau a modelau gwasanaeth a seilwaith newydd.

Mae hyfforddiant yn hollbwysig i staff gofal iechyd, cynorthwywyr personol a'r rheini mewn swyddi arwain, a cheir **argymhellion ar gyfer fframweithiau strwythuredig, asesu cymwyseddau a mecanweithiau cymorth drwy gymheiriaid.**

**Mae strwythurau llywodraethu ffurfiol yn cefnogi'r broses o weithredu cydlynol,** gan egluro rolau a sicrhau cysondeb ledled y rhanbarthau.

**Roedd taliadau uniongyrchol yn gysylltiedig ag ystod o ganlyniadau cadarnhaol**, gan gynnwys gwell iechyd a lles i ddefnyddwyr a gofalwyr, yn enwedig pan oedd y rhain yn cael eu rheoli gan deulu a ffrindiau dibynadwy.

## **Y goblygiadau ar gyfer byd polisi ac ymarfer** | Dilyniant hirdymor

Dylai cyflwyniad cychwynnol y taliadau uniongyrchol **gyfrif am gyfnod o addasu**, yn enwedig wrth fesur neu asesu effaith.

**Mae dilyniant yn y tymor hirach (9 mis o leiaf) yn hollbwysig i gofnodi effaith lawn y newid yn y polisi hwn**, gan ganiatáu amser i ddefnyddwyr addasu, meithrin hyder a datblygu arferion cynaliadwy sy'n adlewyrchu diben manteision taliadau uniongyrchol.

I weld yr adolygiad cyflym llawn, cliciwch yma:
https://medrxiv.org/cgi/content/short/2025.09.01.25334440v1

I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud ymholiad, cysylltwch â
healthandcareevidence@caerdydd.ac.uk